**CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Mae Adran 16 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 yn mynnu bod y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â'r Canllawiau Statudol. Mae'r Cylch Gorchwyl ar sail Pennod 3 o'r Canllawiau Statudol, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru..

Bydd cyfarfodydd ac is-bwyllgorau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn agored i'r cyhoedd fel sy'n arferol yng nghyfarfodydd y cyngor ac yn ddarostyngedig i'r un drefn hygyrchedd yn gyffredinol.

***Cylch gorchwyl y Pwyllgor***

Swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd yw:

- Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd
- Llunio adroddiadau, o leiaf bob blwyddyn, i'r cyngor llawn am y materion hyn.
- Ystyried amseriad cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau

Gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd benderfynu sut mae'n cyflawni'r swyddogaethau hyn.

***Aelodaeth***
Bydd y Pwyllgor yn cynnwys chwe Aelod cytbwys gwleidyddol a benodir gan y Cyngor. Dylai gynnwys cynghorwyr yn unig ac ni all gynnwys mwy nag un aelod o'r weithrediaeth neu gynorthwyydd i'r weithrediaeth. Ni ddylai unrhyw aelod gweithredol fod yn arweinydd y cyngor.

***Cadeirydd***
Caiff y Cadeirydd ei benodi gan y Cyngor a bydd yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd ddinesig yn olynol (yn unol ag Erthygl 5.2 Rhan 2 y Cyfansoddiad). Ni ddylai'r Cadeirydd fod yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y weithrediaeth. Yr eithriad i hyn yw pan nad oes gan gyngor unrhyw grwpiau gwrthblaid. Yn yr achos hwn, gellir penodi unrhyw aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn gadeirydd ar yr amod nad yw'r aelod yn aelod o'r weithrediaeth.

***Cyfethol***
Nid yw'r Mesur yn rhoi pwerau i'r Pwyllgor gyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

***Is-bwyllgorau***
Caiff y Pwyllgor benodi is-bwyllgorau yn ôl y gofyn a dirprwyo swyddogaethau iddynt.

Bydd y Pwyllgor yn penodi Cadeirydd unrhyw is-bwyllgor.

***Dod i gyfarfodydd y Pwyllgor i ateb cwestiynau***

Mae gan y Pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgor) bŵer i fynnu bod unrhyw rai o Aelodau neu Swyddogion y Cyngor yn dod i'w gyfarfodydd i ateb cwestiynau, a gall wahodd unrhyw un arall y mae'n dymuno'i wahodd hefyd. Os bydd gofyn i aelod neu swyddog ddod i gyfarfod, rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiwn, oni bai ei fod yn gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn llys barn.

***Mynediad at wybodaeth***

Mae Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor yn berthnasol i drafodion y Pwyllgor, fel y'u nodir yn Nogfen B Rhan 4 y Cyfansoddiad.

***Pa mor aml fydd y pwyllgor yn cyfarfod***

Bydd y Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith mewn unrhyw flwyddyn ddinesig, ond bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn anelu at gwrddyn cyfarfod o leiaf dair gwaith yn ystod unrhyw flwyddyn ddinesig.

Gellir cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor hefyd os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu y dylid gwneud hynny, neu os bydd o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor yn galw am gyfarfod. Nid oes cyfyngiad ar uchafswm nifer y cyfarfodydd y gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eu cynnal.

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn.

***Canllawiau Llywodraeth Cymru***

Rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru pan fydd yn cyflawni'i swyddogaethau.

***Adroddiadau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd***

Rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd cyn pen tri mis. Yn yr un modd, rhaid i'r Cyngor llawn ystyried unrhyw adroddiad a wneir gan y Pwyllgor cyn pen tri mis.